# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Cofnodion Cryno: HWLG(3)-17-10 : 3 Tachwedd 2010

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_03_11_2010&t=0

**Amser: 09.10 – 11.40**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Darren Millar, Gorllewin Clwyd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Andrew R.T. Davies, Canol De Cymru
Veronica German, Dwyrain De Cymru
Christine Chapman, Cwm Cynon

### Tystion

Dr Andrew Dearden, Cymdeithas Feddygol Prydain (Eitem 2)
Dr Stephen Davies, Cymdeithas Feddygol Prydain (Eitem 2)
Yr Athro Stephen Richmond, Athro mewn Orthodonteg, Ysgol Ddeintyddiaeth Prifysgol Caerdydd (Eitem 3)
Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Eitem 4)
Dr Sarah Watkins, Uwch-swyddog Meddygol a Phennaeth Grwpiau Iechyd Meddwl ac Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru (Eitem 4)
Dr David Thomas, Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol, Llywodraeth Cymru (Eitem 4)
Andrew Powell-Chandler, Pennaeth Gwasanaethau Deintyddol, Llywodraeth Cymru (Eitem 4)

### Staff y Pwyllgor

Marc Wyn Jones, Clerc
Sarita Marshall, Dirprwy Glerc
Steve Boyce, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (Eitemau 2 a 4 yn unig)
Rachel Dolman, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (Eitemau 3 a 4 yn unig)

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Irene James a Helen Mary Jones. Roedd Christine Chapman yn dirprwyo ar ran Irene James.

### Eitem 2: Ymchwiliad i Driniaeth ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog

**Papur: HWLG(3)-17-10-p1**

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Feddygol Prydain am wneud diagnosis a thrin Anhwylder Straen wedi Trawma; cydlynu gwasanaethau; a gwasanaethau yn y dyfodol.

### Eitem 3: Ymchwiliad i Wasanaethau Orthodontig: casglu tystiolaeth

**Papur: HWLG(3)-17-10-p2**

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Stephen Richmond am y gweithlu orthodontig; mesur ansawdd y gofal a'r canlyniadau i gleifion; cyllideb y GIG a chomisiynu gweithgarwch orthodontig; a chyfeirio.

### Eitem 4: Ymchwiliadau'r Pwyllgor i Driniaeth ar gyfer Anhwylder Straen wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog ac i Wasanaethau Orthodontig: tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

**Papurau: HWLG(3)-17-10-p3 Anhwylder Straen wedi Trawma**
**HWLG(3)-17-10-p4 Eiriolwr y Lluoedd Arfog**
**HWLG(3)-17-10-p5 Gwasanaethau orthodontig**
**HWLG(3)-17-10-p5 Atodiad A**

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru am Anhwylder Straen wedi Trawma, ac yn benodol am wneud diagnosis a

thrin Anhwylder Straen wedi Trawma; cydlynu gwasanaethau; a chydgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru, y Lluoedd Arfog a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd gan Lywodraeth Cymru am wasanaethau orthodontig, yn benodol am flaenoriaethau deintyddol y GIG; cyllido gwasanaethau orthodontig; y galw am driniaeth orthodontig; y gallu i ateb y galw; llywodraethu clinigol; cynllunio mewn gwasanaethau orthodontig, a'r adolygiad annibynnol o wasanaethau orthodontig.

### 5: Papurau a nodwyd

Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

HWLG(3)-17-10-p8 Cymdeithas Orthodontig Prydain – Atebion i gwestiynau nas cyrhaeddwyd ar 22 Medi

HWLG(3)-16-10- Cofnodion y cyfarfod blaenorol

### 6: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 7 ac 8

6.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig o dan Reol Sefydlog 10.37, i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod i drafod adroddiad drafft ar yr Ymchwiliad i Fyrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru a chylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad o'r fath yn y dyfodol.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y  cynnig.